TROSOLWG O’R YMGYNGHORIAD STATUDOL

# Adolygiad o Ysgolion Catholig yn Sir y Fflint

**Cyfnod Ymgynghori: Yn dechrau ar 16 Mehefin 2026 ac yn Cau am 11:59pm ar 29 Gorffennaf 2026**

# CYFLWYNIAD

**Mae gan Esgobaeth Gatholig Wrecsam (yr Esgobaeth) a Chyngor Sir y Fflint (y Cyngor) gyfrifoldeb o sicrhau fod ysgolion Catholig yn darparu'r addysg orau bosibl.**

**Ar ôl adolygu ysgolion Catholig, mae'r Esgobaeth a'r Cyngor yn credu fod newidiadau yn angenrheidiol i helpu darpariaeth addysg Gatholig i ffynnu yn y dyfodol.**

**Mae'r ddogfen hon wedi ei dylunio i roi trosolwg i bobl o'r newidiadau arfaethedig. Gellir dod o hyd i fanylion llawn y cynnig yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol sydd yma:**

**https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig**

# YSGOLION CATHOLIG

**Mae gan Sir y Fflint chwe ysgol sy’n darparu addysg sy’n seiliedig ar y ffydd Gatholig.**

- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney**
- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn Yr Wyddgrug**
- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn Y Fflint**
- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi, Treffynnon.**
- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.**
- **Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn**

Noder: bydd enwau’r ysgolion yn cael eu byrhau yng ngweddill y ddogfen hon

# CEFNDIR

Mae cyfanswm y disgyblion ar draws yr holl ysgolion yn gostwng ac mae hyn yn wir hefyd wrth edrych ar y ddarpariaeth Gatholig yn unig. Dros y 5 mlynedd diwethaf, o'r 1081 o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion gynradd Gatholig , mae nifer y disgyblion wedi gostwng o 738 i 649. O'r 969 o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion uwchradd Gatholig , mae nifer y disgyblion wedi gostwng o 784 i 739.

Rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau ac mae niferoedd is o ran disgyblion yn golygu nad yw cyllidebau ysgolion yn cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl er budd y dysgwyr.

Mae'r Esgobaeth wedi cydnabod y gostyngiad hwn ac ar ôl ystyried ffactorau eraill fel cyflwr adeiladau'r ysgolion a'r costau atgyweirio posibl, penderfynwyd cyflwyno cynnig beiddgar y credir y bydd yn diogelu darpariaeth hirdymor addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Mae'r Cyngor wedi cytuno i weithio gyda'r Esgobaeth i gasglu eich safbwyntiau a chyflawni'r cynnig os penderfynir ei weithredu.

# Y CYNNIG

Mae’r Esgobaeth a’r Cyngor wedi cynnig:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai’r uno’n golygu:
    - y byddai’r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027;
    - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027;
    - y byddai’r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

# OPSIYNAU ERAILL

Nid y cynnig hwn oedd yr unig opsiwn yr edrychwyd arno. Ystyriwyd y manteision a'r anfanteision ar gyfer:

- Gwneud dim
- Cyflawni gwaith cynnal a chadw oedd wedi cronni yn unig
- Uno ysgolion Y Fflint a chadw'r ysgolion fel y maent
- Uno pob un o'r 6 ysgol ar safle'r Fflint
- Uno'r ysgolion yn Y Fflint, Saltney a'r Wyddgrug a hefyd ysgolion Shotton a Threffynnon i gydweithio'n fwy agos gyda'i gilydd o dan un pennaeth ond cyrff llywodraethu gwahanol.

# MANTEISION Y CYNNIG

- Cyfleusterau newydd, modern wedi eu dylunio ar gyfer cwricwlwm cyfoes
- Adeilad(au) carbon sero net
- Lleihau problemau cynnal a chadw a chostau'n sylweddol ar draws y sector Catholig
- Profiad addysgu drwy'r ysgol i ddisgyblion Y Fflint, sy'n hwyluso'r broses bontio.
- Datblygiad drwy'r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rennir
- Arweinyddiaeth a llywodraethu a rennir
- Y potensial am fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad staff
- Gostyngiad sylweddol mewn lleoedd gwag
- Datrysiad hirdymor cynaliadwy
- Dwy ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau priodol

# ANFANTEISION Y CYNNIG

- Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol
- Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw mewn dwy ysgol gynradd arall
- Mae'n tynnu dwy ysgol o'u cymunedau lleol
- Cynnydd mewn amser teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i'w hysgol gynradd Gatholig amgen.
- Posibilrwydd o golli disgyblion sydd eisoes yn mynychu, neu a fyddai o bosibl wedi mynychu, Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig
- Y posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug
- Colli lleoliadau ysgol hanesyddol

# AMSERLEN

**Dyma'r camau a phryd maent yn debygol o ddigwydd:**

- **Y Cyfnod Ymgynghori: 16 Mehefin 2026 tan 29 Gorffennaf 2026**
- **Ystyried Canlyniadau'r Ymgynghoriad: Medi / Hydref 2026**
- **Cyhoeddi Hysbysiad Statudol: Hydref / Tachwedd 2026**
- **Cyfnod Gwrthwynebu: Hydref / Tachwedd 2026**
- **Penderfyniad Terfynol: Ionawr / Chwefror 2027**

# EICH BARN

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cael dweud eich dweud ar y cynnig.  Croesawir pob safbwynt, boed yn gadarnhaol, niwtral neu negyddol.

Bydd eich safbwyntiau ar yr ymgynghoriad yn cael eu rhoi i Gabinet y Cyngor i'w helpu i benderfynu p'un ai i fynd ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

Fodd bynnag, dylid nodi na chaiff ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Bydd gwrthwynebiadau ffurfiol yn cael eu casglu'n ddiweddarach os yw'r cynigion yn symud ymlaen i'r cam hwnnw.

Cofiwch: Dim ond trosolwg o'r cynnig yw'r ddogfen hon a gellir gweld y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn llawn yma:

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

# SUT I YMATEB

Cwblhewch yr arolwg ar-lein i roi eich barn ar y cynnig:

https://www.smartsurvey.co.uk/s/catholiceducationconsultation1

Neu fe allwch wneud cais am gopi caled o'r ffurflen ymateb drwy gysylltu â'r Cyngor drwy e-bost: CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk, drwy ffonio 01352 704014, 01352 704018 or 01352 702188 neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Cyngor Sir y Fflint

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion

Tŷ Dewi Sant

Parc Dewi Sant

Ewlo  CH5 3FF